



## YSGOL I.D. HOOSON

16/10/20

Annwyl Rieni/Ofalwyr,

Ers Medi 14eg, mae'r rheolau o ran gwisgo mygydau /gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus yma yng Nghymru wedi newid. Nid oes deddfwriaeth ynglŷn â gorfodaeth i wisgo mygydau ar dir ysgolion cynradd. Y canllawiau ydi i ysgolion i wneud penderfyniadau ar lefel lleol wedi seilio ar asesiad risg eu hunain.

Yma yn Ysgol ID Hooson, rydym yn monitro ein hasesiad risg yn barhaus. Ers i ni ail agor ein drysau yn llawn o Fedi 14eg, mae nifer rhieni sy'n mynychu ar ddechrau a diwedd y dydd i nôl eu plant yn naturiol wedi codi. Da yw gweld fod y rhan fwyaf yn cadw at fesurau pellter cymdeithasol ac yn cadw at y gofynion penodol o ran iechyd a diogelwch.

Wedi hir ystyried, o ddydd Llun Hydref 19eg ymlaen, byddwn yn argymhell i BOB rhiant sy'n troedio ar dir yr ysgol i wisgo mwgwd. Pwysleisir nid yw yn statudol, ond o fewn yr hinsawdd ohoni, yr arferiad o wisgo mewn siopau, trafndiaeth gyhoeddus ac ati, mai doeth o beth fyddai i wneud ar dir yr ysgol. Deallwn nad yw hyn yn orfodol a hefyd eich bod tu allan, ond mae'r penderfyniad wedi seilio ar geisio gwarchod iechyd pawb - boed rhieni, staff a disgyblion. Ni ddisgwyliwn i blant wisgo mygydau ar y safle, mae hyn yn benderfyniad personol fesul teulu.

**Dysgu o bell** - Yn ystod y cyfnod clo, bu'r plant yn gwneud defnydd o gyfiri llwyfan dysgu HWB personol ar lein i'w cefnogi gyda'r dysgu o adref. Bydd eich plentyn yn parhau i wneud defnydd o'r adnodd, ac yn achlysurol bydd yr athro dosbarth yn gofyn i'r plant gwblhau gwaith cartref drwy ddefnydd o'r cyfrif HWB. Gan ein bod yn parhau i fod mewn cyfnod bregus ac ansicr iawn o ran Covid-19, mae angen i ni fod yn barod i ymateb i sefyllfa ble y bydd angen cau yr ysgol ar gyfer grwpiau penodol o blant. Os y byddwn yn wynebu sefyllfa o'r fath, yna bydd yr athro dosbarth yn cydlynu'r dysgu drwy gyfiri HWB y plentyn. Mae'r athrawon yn barod wedi bod yn ymgyswrtu'r plant gyda'i chyfiri HWB yn y dosbarth, ac felly y gobaith yw y bydd y plant yn gallu troi at hwn os yw sefyllfa yn codi. Ar gyfer achlysuron ble bydd unigolion yn gorfod aros o'r ysgol o ganlyniad i'r angen i hunan ynysu, mae hefyd pecynnau gwaith wedi ei pharatoi gan yr athrawon ar gyfer y plant.

**TREFNIADAU AR GYFER HYSBYSU'R YSGOL O ACHOS NEGATIF NEU BOSITIF O COVID DROS Y PENWYTHNOS** - Os ydych yn derbyn canlyniad prawf Covid ar ôl 4 o'r gloch ar Ddydd Gwener neu dros y penwythnos ar gyfer eich plentyn, neu gyswllt agos i'ch plentyn, boed yn bositif neu yn negyddol, allwch chi anfon neges destun yn syth i rif symudol 07541080196 neu e-bost i [mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk](mailto:mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk) Diolch

**e-bost** - Rydym yn symud oddi wrth y drefn o anfon copïau papur o lythyrau a dogfennaeth . Rydym yn barod yn anfon gohebiaeth drwy Schoop, App yr ysgol a drwy wefan yr ysgol. Os nad ydych yn barod wedi cofrestru a lawr lwytho yr app perthnasol, yna bydd angen gwneud hyn erbyn dydd Llun Tachwedd 2ail, gan na fydd copïau papur yn cael ei hanfon allan ar ôl y dyddiad yma. Os ydych angen gwybodaeth ynglŷn â lawr lwytho'r app, yna cysylltwch â swyddfa'r ysgol: [mailbox@hooson-pri.wrexham.gov.uk](mailto:mailbox@hooson-pri.wrexham.gov.uk)

**Gwella Ysgol** - Rydym bob amser yn edrych ar ffyrdd i wella'r ysgol ymhellach, ac mae cynllun gwella'r ysgol yn gosod prif flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol. Y flwyddyn yma, byddwn yn gweithio ar 4 prif flaenoriaeth. Mae rhai fel a ganlyn:

1. Parhau gyda'r gwaith o baratoi tuag at Gwricwlwm 2022 i gynnwys adolygu trefniadau ar gyfer ymarfer y defnydd o fedrau rhifedd a llythrennedd a TGCh ar draws y cwricwlwm
2. Adolygu trefniadau a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafar y Gymraeg ar draws yr ysgol.
3. Adolygu trefniadau a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu a darllen ar draws yr ysgol
4. Ffocws bellach ar drefniadaethau a gweithdrefnau'r ysgol wrth gyflwyno newidiadau i weithredu gofynion Deddf ADY 2020

**Mini Marathon** - Mae'r amserlen ar gyfer wythnos nesaf fel a ganlyn. Bydd grwpiau blwyddyn wahanol yn cymryd rhan ar ddiwrnodiau gwahanol

	<b>Bore/Morning</b>	<b>P'nawn/Afternoon</b>
Meithrin / Derbyn	Mercher/Wednesday (21.10.20)	
Blwyddyn 1/2 Year 1/2	Mawrth/Tuesday (20.10.20)	Mawrth/Tuesday
Blwyddyn 3/4 Year 3/4		Mercher/Wednesday (21.10.20) (Dosbarth Miss Darlington & Miss Morris) Gwener/Friday (23.10.20) (Dosbarth Mr D Jones)
Blwyddyn 5/6 Year 5/6	Iau/Thursday (22.10.20)	Iau/Thursday

Bydd angen i'r plant ddod i'r ysgol mewn gwisg addysg gorfforol, a dod a **trainers addas ar gyfer cerdded / rhedeg o amgylch cae yr ysgol (gall y cae fod ychydig yn fwdlyd!)**

**Ymgyrch Bocs Esgidiau** - Byddwn yn cefnogi'r ymgyrch yma eto y flwyddyn yma. Gweler manylion ar y pamffled wybodaeth. Bydd angen i'r bocsys gael ei dychwelyd ar ddydd **Gwener Tachwedd 20fed**. Dylid gadel unrhyw focs tu allan i'r brif fynedfa o dan y gysgodfan.

**Diwrnod Plant Mewn Angen** - Byddwn yn cefnogi Plant Mewn Angen ar ddydd Gwener Tachwedd 15fed. Thema ein diwrnod y flwyddyn yma fydd 'Gwisgo Het am Hwyl'. Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw gyfraniadau tuag at yr apêl, a chesglir rhain ar y dydd.

Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Yn ddiffuant,

Rhodri Jones  
Pennaeth